OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 2377

# Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011

## RHAN 7

Dirymiadau, darpariaeth drosiannol a chychwyn

### Dirymu Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011

**28.**—(1) Mae Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011")(**1**) wedi eu dirymu.

(2) Mae'r darpariaethau a ddirymwyd gan Reoliadau 2011 wedi eu hadfywio.

(3) Mae'r diwygiadau a wnaed gan ddarpariaethau Atodlen 2 i Reoliadau 2011 wedi eu dadwneud.

### Dirymiadau eraill

**29.** Mae'r offerynnau canlynol wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006(**2**); a

(b) Gorchymyn Ffliw Adar (H5N1) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007(**3**).

### Darpariaeth drosiannol

**30.**—(1) Mae casglu, cludo a gwaredu deunydd Categori 3 yn Erthygl 10(f) o Reoliad Rheolaeth yr UE (deunydd Categori 3) wedi ei awdurdodi ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2012, pan fo gofynion paragraff (2) wedi eu bodloni.

(2) Y gofynion yw—

(a) bod y deunydd yn bodloni Erthygl 36(3) o Reoliad Gweithredu'r UE a pharagraffau (a) i (c) o Bennod 4 o Atodiad 6 iddo; a

(b) bod y dull o waredu deunydd o'r fath, yn ychwanegol at y dull yn Erthygl 14 o Reoliad Rheolaeth yr UE (gwaredu a defnyddio deunydd Categori 3), yn gwaredu—

(i) mewn tirlenwi awdurdodedig heb brosesu ymlaen llaw; neu

(ii) pan fo Erthygl 21 o Reoliad Rheolaeth yr UE wedi ei bodloni, i safle bionwy neu safle compostio ar gyfer trawsffurfio yn unol ag awdurdodiad o dan baragraff 2 o Adran 2 o Bennod 3 o Atodiad 5 i Reoliad Gweithredu'r UE.

### Cychwyn

**31.**—(1) Mae rheoliad 28 yn dod i rym am 12.01a.m. ar 20 Hydref 2011.

(**1**) O.S. 2011/600 (Cy.88).
(**2**) O.S. 2006/1293 (Cy.127).
(**3**) O.S. 2007/3375 (Cy.300).

(2) Mae gweddill y rheoliadau'n dod i rym am 12.15a.m. ar 20 Hydref 2011.